# Ysgol Gymraeg

17eg o Fedi 2025 / 17th of September 2025

Annwyl Rieni / Gofalwyr / Dear Parents / Carers,

Mae'n bleser cyflwyno fy hun fel pennaeth newydd Ysgol Gymraeg Gwynllyw. Rwy'n gobeithio eich bod chi a'ch plant wedi ymgartrefu'n dda ar ddechrau blwyddyn newydd o ysgol. Rwy'n falch iawn i fod yn arwain Ysgol Gymraeg Gwynllyw ac adeiladu ar fy mhrofiad fel uwch arweinydd gydag Estyn. Trwy gydol fy ngyrfa, rwyf wedi bod yn angerddol ynghylch sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Ar ddydd Mercher, cefais gyfle i gyfarfod a chydweithio gyda phenaethiaid ein clwstwr. Roedd yn wych cael cyfle i weithio ar gynllun datblygu clwstwr a chynllunio cyfres o weithgareddau pontio cyffrous ar gyfer ein disgyblion.

Rwy'n credu'n gryf mewn meithrin diwylliant o ddisgwyliadau uchel, parch a chydweithio er lles ein disgyblion. Ein nod yw datblygu nid yn unig medrau academaidd cryf ond hefyd i sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu'n bersonol ac yn mwynhau dysgu a dod i'r ysgol. Braf oedd cael cyfle i rannu arfer dda a chyd-gynllunio er mwyn datblygu ymhellach y profiadau mae ein disgyblion yn eu derbyn.

Fel ysgol, rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ein diwylliant ac ethos Gymreig ac rydym yn awyddus i sicrhau addysg ddwyieithog o'r radd flaenaf. Mae'r bartneriaeth gyda chi yn allweddol er mwyn cefnogi llwyddiant eich plentyn. Dros y misoedd nesaf rwy'n edrych ymlaen at fynychu digwyddiadau yn ein hysgolion partner er mwyn cyfarfod â chi a'ch plant.

Hoffwn estyn wahoddiad i chi ymweld ag Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn ystod wythnos yr 20fed o Hydref  er mwyn i chi cael blas ar fywyd pob dydd yn yr ysgol. Bydd arweinwyr, staff a disgyblion ar gael i'ch croesawu ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os hoffech ymweld a'r ysgol, gofynnwn i chi nodi'ch manylion ar y ffurflen hone: Ffurflen cofrestru am daith

Mae cyfrif instagram @yggwyllyw neu facebook @ysgolgwynllyw yr ysgol hefyd yn rhoi blas i chi o'r llu o weithgareddau sydd ar gael i'n disgyblion. Os oes gennych gwestiwn penodol gallwch gysylltu â mi trwy swyddfa'r ysgol: swyddfa@gwynllyw.cymru.

Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi. Gyda dymuniadau gorau ar gyfer y tymor i ddod.

Ysgol Gymraeg Gwynllyw, Heol y Ffoledd, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP4 8JD
01495 750405 www.gwynllyw.cymru yggswyddfa@gwynllyw.cymru

It is a pleasure to introduce myself as the new headteacher of Ysgol Gymraeg Gwynllyw. I hope that you and your children have settled in well at the start of a new school year. I am very proud to be leading Ysgol Gymraeg Gwynllyw and to be building on my experience as a senior leader with Estyn. Throughout my career, I have been passionate about ensuring that children and young people receive the best education.

On Wednesday, I had the opportunity to meet and work with our cluster headteachers. It was great to have the opportunity to work on a cluster development plan and to plan a series of exciting transition activities for our pupils.

I strongly believe in fostering a culture of high expectations, respect, and co-operation for the benefit of our pupils. Our goal is to ensure that our pupils not only develop strong academic skills but also to support their personal development, ensuring that they enjoy learning and coming to school. During our meeting we had the opportunity to share best practice and to work together to further develop the experiences that our pupils receive.

As a school, we greatly value our Welsh culture and ethos, and we are keen to ensure an excellent bilingual education. Our partnership with you is key to supporting your child's success. Over the next few months, I look forward to attending events at our partner primary schools in order to meet you and your children.

I would like to extend an invitation for you to visit Ysgol Gymraeg Gwynllyw during the week of the 20th of October, so that you can get a flavour of everyday life in our school. Leaders, staff, and pupils will be on-hand to welcome you and answer any questions you may have. If you would like to visit the school, we ask you to provide your details on this form: Tour registration form

The school's Instagram account @yggwyllyw or Facebook @ysgolgwynllyw also gives you a taste of the wide range of activities that are available to our pupils. If you have a specific question, you are also welcome to contact me through the school office: swyddfa@gwynllyw.cymru.

I look forward to working with you. With best wishes for the coming term.

Catherine Evans
**Pennaeth / Headteacher**



Ysgol Gymraeg Gwynllyw, Heol y Ffoledd, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP4 8JD
01495 750405 www.gwynllyw.cymru yggswyddfa@gwynllyw.cymru